

Ymgynghori ar Ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol

Adnodd i Ymwneud Rhanddeiliaid Cymru

Chwefror 2022

Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Ar 10 Chwefror 2022 cynhaliodd y Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol, y Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru gyfarfod bord gron ymwneud rhanddeiliaid i drafod ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Bwriad i gael Mesur Iawnderau y DU i gymryd lle Deddf Hawliau Dynol 1998. Cynhaliwyd y cyfarfod bord gron dan reolau 'Chatham House'.

DS

- Crynodeb yw'r ddogfen hon o ymatebion ar y cyd gan randdeiliaid o Gymru a fynegwyd yn y sesiwn hon gan ryw 38 o randdeiliaid o 'r gymdeithas sifig ac academaidd. Mae croeso i randdeiliaid ddefnyddio'r wybodaeth yn y ddogfen hon at unrhyw ddiben ac i gyfeirio at y digwyddiad uchod. Fodd bynnag, **ni ddylai** rhanddeiliaid ddatgelu pwy oedd unrhyw rai a gymerodd ran yn y digwyddiad, na datgelu i ba sefydliad y maent yn perthyn.

I helpu rhanddeiliaid a allai fod eisiau ymateb i'r ymgynghoriad mewn ffyrdd gwahanol, ceir crynodeb o'r negeseuon o'r drafodaeth isod fel a ganlyn:

- Pwyntiau cyffredinol: pwyntiau 'lefel uchel' sy'n ymdrin â phryderon o bwys am yr ymgynghoriad yn gyffredinol.
- Pwyntiau penodol: pwyntiau 'lefel uchel' sy'n ymdrin â chynigion Llywodraeth y DU yn fwy uniongyrchol.
- Pwyntiau thematig: pwyntiau mwy manwl sy'n ymdrin â'r themâu a drafodir ym Mhennod 4 ymgynghoriad Llywodraeth y DU.

Pwyntiau cychwynnol

- Terfyn amser yr [ymgynghoriad](#) 11:59 pm ar 8 Mawrth 2022.
- Fformat a argymhellir ar gyfer ateb: trwy e-bost at: HRAReform@justice.gov.uk
- Ar 24 Chwefror 2022 [cyhoeddodd](#) Llywodraeth y DU yr hyn mae'n cyfeirio ato fel fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o'r ymgynghoriad. Nid oes lluniau ynddo, fodd bynnag, ac adeg ysgrifennu hyn, ni chafodd y terfyn amser o 8 Mawrth ei ymestyn.

- Cafwyd [cyfieithiad](#) i'r Gymraeg ym mis Chwefror.
- Os nad yw eich sefydliad eisiau ymateb i bob cwestiwn yn nogfen yr ymgynghoriad, gallwch gyflwyno ymateb i ddewis cwestiynau unigol **neu gyflwyno ymateb ysgrifenedig yn gosod allan bwyntiau y dymunwch eu gwneud heb ateb unrhyw gwestiwn yn uniongyrchol.**
- Yr oedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y byddai ymateb ysgrifenedig sy'n gwneud pwyntiau penodol yn well oherwydd bod yr ymgynghoriad yn codi nifer o bryderon sylweddol a threfniadol na ellir ymdrin â hwy mewn ymateb i'r cwestiynau technegol, cyfreithyddol sydd wedi eu geirio'n gul ac sy'n aml â thuedd tuag at un safbwynt penodol.
- Os byddwch chi neu eich sefydliad yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, buasem yn awgrymu i chi ei anfon hefyd at y Sefydliad Prydeinig Hawliau Dynol dan e-bost ar wahân kpealing@bihr.org.uk. Mae hyn oherwydd: [1] bod y BIHR yn gobeithio mesur lefel y gwrthwynebiad i gynigion Llywodraeth y DU i eiriol dros agwedd wahanol; a [2] nad yw'n glir a fydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad.

Pwyntiau cyffredinol

Yr oedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol fod cynigion Llywodraeth y DU i ddiwygio DHD 1998:

- Yn ddiangen am fod DHD 1998 yn gweithio'n dda.
- Yn debygol o arwain at yrru'n ôl amddiffyn a chyflawni hawliau dynol yn y DU.
- Â'r potensial i ymyrryd â chynnydd ar hawliau dynol yng Nghymru.
- Yn seiliedig ar fersiwn ddethol a phleidiol o'r dystiolaeth sydd ar gael sydd yn aml yn camliwio'r ffordd y mae DHD 1998 yn gweithredu mewn gwirionedd.
- Yn groes i ganfyddiadau yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol (AADHD).
- Ni ddylai fod yn gymwys yng Nghymru.

Pwyntiau penodol

Yr oedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol ar y canlynol:

- Dylai Mesur lawnderau y DU fod yn gyfle i gryfhau a gwella rôl hawliau dynol yn y DU. I'r gwrthwyneb y byddai cynigion Llywodraeth y DU, a byddai'n gwanhau gorfodi hawliau dynol yn y DU ac yng Nghymru, a byddai'n golygu y byddai llai o bobl yn gallu ceisio iawn am dreisio eu hawliau.

- Byddai cynigion Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder, yn lleihau atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus a'r Llywodraeth ar bob lefel o ran cydymffurfio â hawliau dynol a chânt effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchoddedig sydd debygol o wynebu'r rhwystrau mwyaf i gyrchu cyfiawnder.
- Byddai nifer o gynigion Llywodraeth y DU yn taseilio'r gwahaniad pwerau, yn creu tensiynau gyda datganoli ac yn taseilio'r holl syniad fod hawliau dynol yn gyffredinol.
- Mae cwestiynau ynghylch cyfreithlondeb ymarferiad yr ymgynghoriad. Mae cynnwys dogfen yr ymgynghoriad yn aml â thuedd tuag at ganfyddiad penodol o hawliau dynol, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y CEHD neu y Confensiwn) a DHD 1998 nas cydnabyddir yng Nghymru. Mae'n methu â rhoi golwg gytbwys o'r modd mae hawliau dynol yn gweithredu ar hyn o bryd yn y DU ac ar adegau, y mae hyd yn oed yn camliwio'r gyfraith. Er enghraifft, wrth drafod hawliau mudwyr, mae'n drysu rhwng statws y gyfraith heddiw â'r safle cyfreithiol 15 mlynedd yn ôl.
- Casglodd yr AADHD gryn gorff o dystiolaeth na lwyddodd ymgynghoriad Llywodraeth y DU i gydnabod nac adlewyrchu yn gywir. Mae'r cynigion diwygio yn aml yn anwybyddu argymhellion a wnaed gan yr AADHD ac weithiau mae'n rhoi gerbron ddewisiadau a wrthodwyd yn glir gan banel o arbenigwyr.
- Mae'r newidiadau yn gyfansoddiadol ddwys a bydd ganddynt oblygiadau difrifol i hawliau dynol yn y DU – nid yw ymarferiad yr ymgynghoriad yn cydnabod nac yn adlewyrchu difrifoldeb tebygol effaith cynigion Llywodraeth y DU ar drefniadau llywodraethiant democrataidd yng Nghymru na'r ffordd o'i redeg.
- Ni fu unrhyw ymwneud â Llywodraeth Cymru ynghylch ffurfio'r cynigion, er bod cydymffurfio â'r CEHD yn agwedd sylfaenol o ddatganoli Cymreig.¹ Nid yw'r ymgynghoriad yn rhoi unrhyw fanylion am y modd y bydd Mesur lawnderau arfaethedig y DU yn ymwneud â'r gyfraith a gweithdrefnau ar y lefel ddatganoledig. Rhoddir hyd yn oed llai fyth o sylw i'r oblygiadau posib i Gymru nac i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ar waeth yr anghyseindedd amlwg rhwng bwriad Mesur lawnderau y DU i gyfyngu ar 'ehangu hawliau' a'r bwriad clir a'r awydd cyffredin yng Nghymru i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol (sy'n cynnwys bwriad i gynyddu cysylltiadau rhwng cyfraith ryngwladol a domestig).

¹ Efallai yr hoffai rhanddeiliaid wybod nid yn unig fod cydymffurfio â'r CEHD wedi ei 'wifrio'n ddwfn' yn y setliad datganoli, ond hefyd fod y pŵer i gadw at a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU a'r CEHD wedi ei roi yn benodol i'r Senedd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, gweler Atodlen 7A). Mae rhwymedigaethau rhyngwladol y DU yn cynnwys cytundebau hawliau dynol y mae'r DU yn Barti Gwladwriaethol iddynt. Nid yw'n glir sut y gall cynigion Llywodraeth y DU ymyrryd â'r cymhwysedd hwn. Un effaith posib yw y bydd y camu'n ôl o amddiffyn hawliau dynol dan y CEHD yn cael 'effaith iasol' trwy wneud y llysoedd yn amharod i gymryd agwedd ragweithiol tuag at amddiffyn hawliau dynol eraill.

- Gan na roddir unrhyw gynigion cadarn gerbron ac na fu unrhyw ymwneud â Llywodraeth Cymru, mae cryn ansicrwydd ynghylch sut y bydd Mesur lawnderau y DU yn rhyngweithio gyda champau cyfreithiol Cymreig newydd yn y gofod hwn, gan gynnwys: cyflwyno'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y dyletswyddau sylw priodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Gall cyflwyno mesurau hawliau dynol atchweliadol sydd yn groes i agwedd blaengar Cymru at hawliau arwain at dirwedd gyfreithiol gynyddol gecrus ac arwain at ansicrwydd i Lysoedd ac awdurdodau cyhoeddus.
- Ceir llawer esiampl lle mae'r derminoleg a ddefnyddir yn amhriodol. Ymysg rhai esiamplau mae syniadau o 'anghyfiawnderau gwirioneddol', fod hawliau dynol yn cael eu 'camddefnyddio', fod dyfarniadau'r CEHD yn 'andwylol', fod 'ehangu' hawliau dynol yn bwnc neu'n broblem, fod hawliau dynol yn 'rhwystro' gweithredu gan y llywodraeth, fod unigolion 'haeddiannol' ac 'anhaeddiannol' ac na ddylai rhai categorïau o bobl allu manteisio ar eu hawliau dynol.
- Mae cysyniadau niwlog a fyddai'n debygol o arwain at gyfnod o ansicrwydd cyfreithiol, megis y syniad o 'anfantaish sylweddol' ac 'ymddygiad ehangach hawlwr'.
- Byddai'r cynigion i roi cyfarwyddyd i'r llysoedd am sut i gynnal ymarferion cydbwysu barnwrol cymhleth yn tansilio yn sylweddol wahaniad pwerau rhwng y weithrediaeth a'r farnwriaeth a byddai'r arwain at system o 'Sofraniaeth Weithredol' yn hytrach na 'Sofraniaeth Weithredol'. Canfu'r AADHD nad oedd angen diwygio trefniadau DHD 1998 i gadw Sofraniaeth Seneddol, am fod Llysoedd y DU eisoes yn talu cryn sylw i sofraniaeth seneddol ac yn arfer doethineb barnwrol.
- Nid yw'r ymgynghoriad yn gyfranogol, ac nid yw chwaith yn ymgais wirioneddol i gasglu barn am yr angen i ddiwygio DHD 1998. Daeth y ddogfen ar gael yn Gymraeg o fewn pum wythnos yn unig o'r terfyn amser, a rhyddhawyd fersiwn annigonol testun-yn-unig yn gamarweiniol fel fersiwn 'Hawdd i'w Darllen' gyda llai na phythefnos i fynd. Nid yw'r teryfn amser am ymatebion yn caniatáu digon o amser i gasglu barn ac i baratoi tystiolaeth i ymdrin â'r materion a godwyd.

Pwyntiau thematig

Thema I – Parchu ein traddodiadau o ran cyfraith gwlad a chryfhau rôl Goruchaf Lys y DU (cwestiynau 1 - 7)

Cynnig	Pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid
Rhoi yn lle Adran 2 DHD sy'n dweud fod yn rhaid i lysoedd y DU 'gymryd	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cynnig hwn yn gwanhau'r cysylltiad rhwng llysoedd y DU a Llys lawnderau Dynol Ewrop (LIIDE). Dros amser, gallai hyn arwain at ddargyfeirio rhwng cyfreithiau hawliau dynol domestig y DU a chyfraith ryngwladol, fyddai'n golygu dwyn

<p>i ystyriaeth’ ddyfarniadau perthnasol y LIIDE gydag un o ddau ddewis i gadarnhau nad oes rhaid i lysoedd y DU gymryd i ystyriaeth gyfraith achos y LIIDE.</p>	<p>mwy o achosion gerbron y LIIDE – a hyn yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar orfodi hawliau gartref. Byddai hefyd yn creu risg y byddai’r DU ymhen amser yn ymbellhau oddi wrth system ehangach Pwyllgor Hawliau Dynol y CU sydd wedi cael dylanwad blaengar ar gyfreithiau rhyngwladol hawliau dynol. Mae pellhau’r DU o’r prosesau hyn yn creu perygl o gyfyngu’r sgôp i gyfraith hawliau dynol ddomestig gadw mewn cof y newid mewn amodau economaidd a chymdeithasol. Mae’r deilliannau hyn yn groes i’r uchelgais a ddatganwyd gan y DU o hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae’n amheus iawn gosod darpariaethau sy’n dweud y gall Llysoedd y DU dalu sylw i benderfyniadau barnwrol a wnaed mewn gwledydd eraill a chyfraith rhyngwladol ochr yn ochr â darpariaeth arall yn dweud nad oes rheidrwydd arnynt i ddilyn dyfarniadau LIIDE. Ni ddylai LIIDE gael safle is na chyfreithiau tramor a chyfreithiau rhyngwladol ehangach. • Mae datganoli yn caniatáu gwahaniaeth mewn agwedd ar lefel y DU a lefel ddatganoledig. Fodd bynnag, gall uchelgeisiau canolog a datganoledig sy’n sylweddol anghydnaws arwain at dirwedd gyfreithiol ddi-drefn i farnwyr ac awdurdodau cyhoeddus. Mae tensiynau gyda’r cynigion hyn yn debygol wrth i randdeiliaid yn y gymdeithas sifig, y Senedd a Llywodraeth Cymru am ddilyn tueddiadau blaengar fel pwysigrwydd cynyddol hawliau cymdeithasol-economaidd. Er enghraifft, yn unol ag ehangu LIIDE i’r maes hwn, mae Cymru bellach wedi cyflwyno dyletswydd gymdeithasol-economaidd. • Mae Llywodraeth Cymru a’r Senedd ar hyn o bryd yn ymchwilio i ddewisiadau i gryfhau cysylltiadau domestig gyda mecanweithiau hawliau dynol rhyngwladol. Mae cynigion Llywodraeth y DU yn hollol groes i uchelgeisiau polisi datganoledig. • Oherwydd y diffyg manylion, nid yw’n glir o ddogfen yr ymgynghoriad sut yn union y bydd y cynigion yn rhyngweithio gyda deddfwriaeth a pholisïau datganoledig Cymru nac yn wir sut y bwriada Llywodraeth y DU lywio eu ffordd trwy’r safbwyntiau tiriogaethol tra gwahanol hyn.
<p>Gwneud yn gliriach mai Goruchaf Lys y DU yw canolwr eithaf cyfreithiau yn y DU. Un cynnig yw cyfundrefnu mewn statud faterion sy’n cwmpo y tu allan i gymhwysedd y Llysoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes dim neu fawr ddim tystiolaeth yn nogfen yr ymgynghoriad i ddweud fod safle a rôl Goruchaf Lys y DU yn aneglur. Deddfwriaeth ddomestig a chyfraith achos yw man cychwyn y Llys eisoes, ac o’r herwydd, cyfyngodd yr AADHD ei argymhellion i wneud y pwynt hwn yn glir. Hefyd, gwrthododd gynigion i gyfundrefnu materion sy’n cwmpo y tu allan i gymhwysedd Llysoedd y DU gan ofni y byddai hyn yn cael effaith hollol groes, sef creu ansicrwydd ac arwain at fwy o ymgyfreitha. • Canfu’r AADHD ymhellach fod Llysoedd y DU eisoes yn cymhwyso egwyddor doethineb barnwrol, sy’n brawf pellach nad oes cyfiawnhad dros ddiwygio yn y maes hwn.

<p>Cydnabod yr hawl i dreial gan reithgor ym Mesur Iawnderau y DU.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r hawl i dreial gan reithgor yn cael ei gydnabod eisoes yn y CEHD ac Erthygl 6 o Ddeddf Hawliau Dynol. Nid oes unrhyw gyfiawndad ystyrlon dros ddiwygio'r maes hwn yn y cynigion.
<p>Cyfes o gynigion ar adran 12 DHD – Rhyddid Mynegiant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngu ar waharddebau yn erbyn y wasg. • Rhoi cyfarwyddyd gweithredol i'r Llysoedd am gymhwyso'r prawf cymesuredd pan ystyrir cyfyngiadau ar ryddid mynegiant. • Cyflwyno 'amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol' ar gyfyngu ar ryddid mynegiant. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni roddir unrhyw dystiolaeth yn y cynigion i awgrymu nad yw adran 12 yn gweithio. Ymhellach, ni chafodd yr AADHD fandad i ystyried y newid hwn, sy'n cyfyngu mwy ar sail y dystiolaeth y gellid bod wedi asesu'r cynigion hyn yn eu herbyn. • Mae perygl i'r cynigion gyflwyno ansicrwydd cyfreithiol gan eu bod yn niwlog ac nad ydynt yn cynnig unrhyw ddiffiniad o'r cysyniadau canlynol: 'ymyrryd â'r wasg; 'cyhoeddwy'r erail' 'diddordeb cyhoeddus ehangach'; ac 'amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol'. Ymhellach, nid oes dystiolaeth o angen i ddarparu cyfarwyddyd i'r Llysoedd yn y maes hwn. I'r gwrthwyneb, cyfyngedig amheuan ynglŷn â gwneud hyn oherwydd bod achosion lle mae cwestiwn o gyfyngu ar ryddid mynegiant yn aml yn hynod benodol o ran ffeithiau gyda chanlyniadau arwyddocaol posib i les pobl.

Thema II – Adfer canolbwynt llymach ar amddiffyn hawliau sylfaenol (cwestiynau 8 – 11)

<p>Cyflwyno 'Cyfnod Caniatáu' am hawliadau hawliau CEHD fyddai'n mynnu bod hawlwr yn gorfod dangos 'anfantais arwyddocaol' yn deillio o dorri eu hawliau.</p> <p>Mae'r cynigion hefyd yn awgrymu cael eithriad 'pwysigrwydd cyhoeddus gor-redol' lle gallai rhai hawliadau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy anfantais gael eu hystyried beth bynnag.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynigion yn gwneud gwahaniaeth problemus rhwng toriadau 'gwirioneddol' and ffug o hawliau dynol. Mae'r rhagdyb yn sgil hyn nad yw pob achos o dorri hawliau dynol yn arwain at 'ddioddefaint gwirioneddol' yn peri pryder hefyd. Dylid rhagdybio fod pob achos o dorri hawliau dynol yn ddifrifol ac yn haeddu goruchwylio a rhwymedi barnwrol. • Ni ofynnwyd i'r AADHD ystyried y cynnig hwn ac ni ddarparwyd dystiolaeth fod angen diwygio'r gofynion cyfredol am hawliad. Byddai cyflwyno cyfnod caniatáu sy'n gofyn am dystiolaeth o 'anfantais arwyddocaol' yn cael effaith anghymesur ar grwpiau fel pobl anabl a dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Fel y gwelwyd adeg y pandemig, mae'r unigolion hyn yn fwy tebygol o brofi torri ar eu hawliau dynol ac y maent eisoes yn wynebu cryn rwystrau o ran cyrchu cyfiawnder. Byddai'r cynigion yn creu mwy o feichiau trefniadol a chostau cyfreithiol, fyddai'n arwain at fwy o rwystrau a lleihau cymhellion i gyflwyno hawliadau a allasai fel arall fod wedi cwrdd â'r meini prawf cymhwyso. Byddai hyn yn rhoi grwpiau bregus dan fwy fyth o anfantais - ymosodiad amlwg ar gyfiawnder. Ymhellach, gall lleihau mynediad at gyfiawnder arwain at anfon mwy o achosion at LLIDE dan erthygl 13 (hawl i rwymedi effeithiol).
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Yn groes i'r amcan a ddatganwyd o gynyddu eglurder a sicrwydd, byddai cyflwyno'r cysyniadau hollol aneglur o 'anfantais arwyddocaol' a 'phwysigrwydd cyhoeddus gor-redol' yn creu mwy o ansicrwydd cyfreithiol tra byddai'r Llysoedd yn gweithio allan ystyr y termau hyn. Ymhellach, nid yw cysyniad pwysigrwydd cyhoeddus yn llwyddo i deall mai prif bwrpas ymgyfreitha hawliau dynol yw amddiffyn unigolion rhag gweithredoedd y wladwriaeth sy'n treisio eu hawliau a dal y Wladwriaeth i safonau uchel o ymddygiad. • Byddai lleihau mynediad at gyfiawnder i bobl â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau bregus eraill yn mynd yn groes i nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o greu 'Cymru Fwy Cyfartal' a 'Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang'.
<p>Adran 8 (3) DHD – Rhwymediau Barnwrol</p> <p>Mae Llywodraeth y DU yn gofyn cwestiwn penagored am sut y gall wneud yn siŵr fod y llysoedd yn canolbwyntio ar 'gamddefnyddio hawliau dynol go-iawn'. Mae'n awgrymu mai un ffordd o wneud hyn yw lleihau nifer yr hawliadau seiliedig ar hawliau dynol trwy fynnu bod unigolion yn hawlio mewn pob ffordd arall (er enghraifft trwy'r gyfraith breifat) yn gyntaf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynigion dan y pennawd hwn yn gwneud nifer o ragdybiaethau amhriodol a heb dystiolaeth gan hawlio fod 'materion dibwys' yn peri problemau i'r llysoedd a gweinyddu cyfiawnder yn y DU. Ni wnaeth yr AADHD edrych i mewn i'r cynnig hwn ac nid oes dystiolaeth o broblemau yn codi i'r llysoedd o ganlyniad i hawlwr yn 'camddefnyddio eu hawliau a hawliau eraill' - yn wir, mae Erthygl 17 DHD eisoes yn diogelu rhag hyn. • Holl bwrpas y cynnig hwn yw gostwng nifer yr hawliadau hawliau dynol ac o'r herwydd dylid ei wrthod. Mae'r awgrym fod angen newid canolbwynt ar 'anghyfiawnder gwirioneddol' yn peri pryder mawr am ei fod yn awgrymu agwedd niwlog, goddrychol a hollol newydd at sut i asesu achosion o dreisio hawliau dynol ar eu haeddiant.
<p>Oblygiadau Cadarnhaol</p> <p>Mae cynigion Llywodraeth y DU am gyfyngu 'gosod ac ehangu' rhwymedigaethau cadarnhaol ar y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rhwymedigaethau cadarnhaol yn hanfodol er mwyn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus a diogelu pobl a'u hawliau. Maent hefyd yn annog awdurdodau cyhoeddus i feddwl am oblygiadau hawliau eu gweithredoedd ac y maent wedi bod yn gryn sbardun i gynnydd yn y maes hwn. Bydd unrhyw gyfyngiadau newydd yn cael effaith negyddol ar arferion hawliau dynol gan awdurdodau cyhoeddus yn y dyfodol. Ymhellach, dengys enghreifftiau a ddyfynnir yn y cynigion megis achos <i>Rabone</i>, y gall ehangu barnwrol ar rwymedigaethau cadarnhaol gan lysoedd y DU fod yn niddordeb y cyhoedd.

	<ul style="list-style-type: none"> • Sut bynnag, mae penderfyniadau diweddar y Goruchaf Lys ar ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU yn cadarnhau cyfraith achos y DU a LIIDE a sefydlwyd ers tro byd, sef y dylai'r llysoedd gymryd agwedd barchus a gofalus at ehangu CEHD i diriogaeth polisi cymdeithasol-economaidd. • Mae'r bwriad y tu ôl i'r cynnig hwn eto yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth Gymreig, ac o'r herwydd mewn perygl o greu tirwedd groes a dryslyd i awdurdodau cyhoeddus ac ymarferwyr cyfreithiol. Er enghraifft, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfiad diweddar y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd, oll yn ceisio gosod oblygiadau newydd ar awdurdodau cyhoeddus i feddwl am oblygiadau hawliau dynol a lles eu penderfyniadau. • Mae'r esiampl a ddyfynnir gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r cynigion hyn ym mharagraffau 148 a 149 yn peri pryder ac yn hynod unochrog. Wrth awgrymu nad oes rheswm dros yr oblygiad cyhoeddus i gymryd mesurau ataliol i warchod bywyd dynol i rai categorïau o unigolion (troseddwr difrifol), nid yw'r cynigion yn deall fod hawliau dynol yn gyffredinol a diamod, a bod hyn o les yn y pen draw i bob bod dynol. Ymhellach, byddai cyfyngu ar rwymedigaethau cyhoeddus yn dwyn nifer o oblygiadau ehangach i bobl â nodweddion gwarchodedig neu sydd mewn safle bregus fel arall. Dangoswyd hyn yn amlwg gan brofiad pobl anabl yn ystod y pandemig. Mae nifer o enghreifftiau eraill, gan gynnwys, er enghraifft, faterion diogelu plant a chefnogi goroeswyr camdriniaeth ddomestig.
--	---

Thema III – Atal ehangu hawliau fesul dipyn heb arolygiaeth ddemocrataidd iawn (cwestiynau 12-26)

<p>Adran 3 DHD am y ddyletswydd i ddehongli deddfwriaeth yn gydnaws â'r CEHD</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Adran 3 yn mynnu bod llysoedd yn dehongli deddfwriaeth i'r graddau y mae hynny'n bosib er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r CEHD. Cynnig Llywodraeth y DU yw diddymu adran 3 neu roi yn ei le un o ddwy ddarpariaeth, gyda'r naill a'r llall yn cyfyngu gallu'r llysoedd i ddehongli deddfwriaeth yn unol â'r CEHD, gan wneud dehongli yn amodol ar hyn fod yn 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r newidiadau arfaethedig yn agwedd sy'n mynd tuag yn ôl sy'n gwrthdaro â'r farn yng Nghymru lle gwelir dehongliad cadarnhaol hawliau gan y farnwriaeth a chyfraith hawliau dynol mewnol fel rhywbeth cadarnhaol. • Yn unol ag argymhellion yr AADHD, ni ddylid gweithredu'r naill na'r llall o'r newidiadau arfaethedig i adran 3. Ystyriodd yr AADHD y newidiadau hyn ym mhennod pump eu hadroddiad a dod i'r farn nad oedd achos sylweddol dros diddymu adran 3. Gwnaeth y panel fân argymhellion yn unig i egluro trefn flaenoriaeth y dehongliad, gan nodi y dylid yn gyntaf ymdrin ag unrhyw ganfyddiadau negyddol posib trwy fwy o ddata ynghylch y defnydd o adran 3 gan y llysoedd ac y dylid ystyried rôl gadarnach i Senedd Prydain, ac yn benodol y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol.
--	--

<p>‘ddarlleniad cyffredin o’r geiriau a ddefnyddiwyd’ ac yn ‘gyson â phwrpas cyffredinol y ddeddfwriaeth’.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn y bôn, byddai’r newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar allu’r llysoedd i sicrhau cydnawsedd â hawliau dynol, yn atal hawliau rhag bwrw ymlaen yn unol â newid cymdeithasol ac yn y pen draw yn gwanhau mesurau gwarchod hawliau. Mae enghraifft o rôl bwysig adran 3 yn achos <i>Ghaidan</i>, lle cafodd ei ddefnyddio i amddiffyn cymar o’r un rhyw rhag camwahaniaethu cyn cyflwyno priodas rhwng dau o’r un rhyw, gan yr ymadrodd ‘fel ei [g]ŵr neu wraig’ yn Neddf Rhent 1977. Yn yr un modd, defnyddiwyd Adran 3 hi ddatblygu’r mesurau gallu meddyliol a ddefnyddiwn ar hyn o bryd. Byddai’r ansicrwydd ynghylch cysyniad ‘darlleniad cyffredin’ hefyd yn debygol o arwain at gyfnod o ansicrwydd cyfreithiol i’r llysoedd a’r ymgyfreithwyr. • Mae’r newidiadau arfaethedig yn ddiangen gan fod adran 3 eisoes yn gosod terfynau priodol ar ddehongliad barnwrol yn 3(1) gyda’r amod ‘<i>i’r graddau y mae’n bosib gwneud hynny ...</i>’ Hefyd, fel y nododd yr AADHD, tywyswyd llysoedd y DU gan ataliad barnwrol a pharch sefydliad yn y maes hwn.
<p>Cyfoethogi rôl Senedd Prydain o ran ymwneud a dyfarniadau adran 3 a chreu cronfa ddata o’r dyfarniadau hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O ystyried y corff sylweddol o waith a wnaed gan yr AADHD ar y pwnc hwn, priodol fyddai cytuno a’r argymhellion hynny. Yr oedd adroddiad yr AADHD yn argymhell creu cronfa ddata o ddyfarniadau adran 3 a chynyddu rôl y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol fel dull o wella crefu seneddol ar ddehongliadau adran 3. Argymhellodd hyn oherwydd bod camsyniadau am y defnydd o adran 3 sydd yn galw am fwy o ddata er mwyn ei ddeall.
<p>Adran 4 DHD – Rhwymediau Cyfreithiol Mae Adran 4 DHD yn caniatáu i’r llysoedd gyhoeddi datganiadau o anghydnawsedd lle mae prif ddeddfwriaeth yn treisio hawliau CEHD. Fodd bynnag, gall deddfwriaeth eilaidd anghydnaws fod yn destun rhwymedi cryfach a gellir ei ddiddymu.</p> <p>Cynigia Llywodraeth y DU atal y llysoedd rhag diddymu deddfwriaeth eilaidd lle mae’n anghydnaws â’r CEHD, a’u cyfyngu i gyhoeddi datganiadau o anghydnawsedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Edrychodd yr AADHD yn helaeth ar adran 4 a chanfod na chafodd unrhyw effaith andwyol ar bŵer cyfansoddiadol Senedd y DU i gyflawni deddfwriaeth. Gwrthododd yn benodol y syniad o atal y llysoedd rhag gallu diddymu deddfwriaeth eilaidd sy’n anghydnaws â hawliau CEHD. • Mae nifer o resymau pan na fyddai’n briodol atal y llysoedd rhag diddymu deddfwriaeth eilaidd sy’n anghydnaws â hawliau’r Confensiwn: <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae mecanweithiau eisoes yn y DHD i sicrhau sofraniaeth Seneddol oherwydd y cyfyngir y llysoedd i ddatganiadau o anghydnawsedd am ddeddfwriaeth eilaidd sy’n treisio hawliau’r Confensiwn lle mae prif ddeddfwriaeth yn mynnu hyn. ○ Byddai’n tramgwyddo normau cyfansoddiadol a rheol cyfraith gan y byddai’n trin deddfwriaeth eilaidd sy’n destun llawer llai o graffu, fel petai’n gyfartal â phrif ddeddfwriaeth. ○ Byddai’n anghydnaws â datganoli gan y gellid diddymu prif ddeddfwriaeth ddatganoledig sy’n treisio’r Confensiwn, ond na ellid diddymu deddfwriaeth eilaidd. ○ Byddai’n arwain at y deilliant tra amheus lle gellid diddymu deddfwriaeth eilaidd ar seiliau eraill, ond nid oherwydd hawliau dynol.

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Byddai'n arwain at gynnydd anawdurdodedig yng ngrym y weithrediaeth yn ein system o Wahaniad Pwerau. ● Byddai'r cynigion am ddiweddymu a gorchmynion adferol yn lleihau mwy ar y rhwymedïau sydd ar gael lle treisiwyd hawliau'r Confensiwn, ac nid ydynt felly yn cael eu hargymell.
<p>Gwahoddodd Llywodraeth y DU sylwadau penagored am y modd y mae adran 19 DHD yn gweithredu ac a oes achos dros newid. Mae Adran 19 DHD yn mynnu bod Gweinidogion sy'n cynnig deddfwriaeth newydd i ystyried a datgan a yw'r ddeddfwriaeth, yn eu barn hwy, yn gydnaws â hawliau CEHD.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Mae datganiadau cydnawsedd yn rhan bwysig o weithredu'r CEHD mewn cyfraith ddomestig. Maent yn cyfrannu at sicrhau fod deddfwriaeth newydd yn cael ei asesu am gydnawsedd hawliau dynol a thrwy hynny maent yn gwella craffu seneddol. Nid oes rheswm i ystyried newid i'r broses hon.
<p>Mae Llywodraeth y DU yn gofyn cwestiwn penagored a hynod niwlog am y ffordd orau y gall Mesur arfaethedig lawnderau y DU adlewyrchu gwahanol ddiddordebau, hanes a thraddodiadau cyfreithiol pob rhan o'r DU, tra'n cadw at yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r Mesur lawnderau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Nid yw'n glir o ddogfen yr ymgynghoriad sut y bwriada Llywodraeth y DU ddelio ag effaith anorfod eu cynigion ar ddatganoli cyfansoddiadol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd ymwneud â'r cwestiwn am ddatganoli ac yn codi cwestiynau difrifol ynghylch craffu os bydd Llywodraeth y DU wedyn yn egluro mwy am eu bwriadau wedi'r ymgynghoriad. Mae hyn yn arbennig o broblemus gan na fu digon o ymwneud â Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Fel esiampl o'r diffyg manylder hwn, mae'r cynigion yn gofyn yn benodol a oes angen amrywiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid ydynt yn ystyried cymhlethdodau posib a all godi yn y cyd-destun Cymreig. Er bod Cymru a Lloegr yn rhannu awdurdodaeth, mae angen trafod oblygiadau'r cynigion hyn yn faith a difrifol gan y byddant, o'u pasio, yn cyflwyno polisi sy'n sylfaenol anghydawns â'r modd y mae Cymru yn ceisio rhoi hawliau dynol ar waith yn ddomestig. Ymhellach, nid yw canlyniadau posib hyn yn glir ar hyn o bryd ac nid yw dogfen yr ymgynghoriad yn trafod hyn. ● Nid yw'n ymddangos y byddai'r cynigion hyn yn atal Llywodraeth Cymru rhag bwrw ymlaen â'u cynllun i ymgorffori offerynnau hawliau dynol rhyngwladol fel ffordd o gryfhau a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru. Mewn gwirionedd, o gofio y buasent yn gyffredinol yn gwanhau gorfodi hawliau dynol domestig, bydd camau datganoledig, fwy na thebyg, yn fwy hanfodol nag erioed. Fodd bynnag, y mae'r cynigion mewn gwrthgyferbyniad llwyr i uchelgeisiau polisi Cymru - sydd yn ei hanfod yn symud y dirwedd ar lefel y DU a Lloegr mewn cyfeiriadau hollol wahanol. Er bod datganoli yn hwyluso ac yn annog agweddau gwahanol at greu cyfreithiau, gall amrywiaeth fel hyn mewn maes mor sylfaenol â hawliau dynol arwain yn nes ymlaen at

	<p>gymhlethdodau, ansicrwydd cyfreithiol a chanlyniadau nas rhagwelwyd. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pa heriau fydd yn codi o'r rhanriad cynyddol rhwng agweddau Cymru a'r DU at hawliau dynol yng nghyd-destun un awdurdodaeth - mae'r canlyniad yn y tymor hir yn debyg o fod yn gymhleth iawn i farnwyr ac awdurdodau cyhoeddus.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n anodd cysoni bwriad y cynigion hyn ag uchelgais Cymru i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Ymhellach, mae cydnawsedd â hawliau'r Confensiwn wedi ei ysgrifennu i mewn i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O'r herwydd, rhaid rhagdybio y bydd yn rhaid cael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd i basio'r Mesur hwn. Heb ymwneud ac ystyriaeth bellach, mae'n anodd gweld sut y gellir rhoi'r cydsyniad hwn.
<p>Newidiadau i adran 6 DHD sydd â'r nod o gyfyngu ar ddyletswyddau hawliau dynol a osodir ar awdurdodau cyhoeddus</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae dogfen yr ymgynghoriad yn awgrymu bod y diffiniad o'r hyn sy'n cyfateb i swyddogaeth gyhoeddus yn rhy hyblyg a bod hyn yn creu ansicrwydd i awdurdodau cyhoeddus. • Mae hefyd yn cynnig ymestyn sefyllfaedd lle gall awdurdodau cyhoeddus weithredu yn anghydnewts â Hawliau Dynol trwy roi rhywbeth yn lle adran 6(2) DHD. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni chododd yr AADHD unrhyw bryderon na gwneud unrhyw argymhellion am ddiwygio adran 6 ac y mae dogfen yr ymgynghoriad ei hun yn ystyried bod yr agwedd bresennol yn 'fras yn iawn'. Ymhellach, mae'r diffiniad o 'swyddogaeth gyhoeddus' hefyd yn bresennol yn Ndedf Cydraddoldeb 2010 a byddai felly yn codi ystyriaethau nas trafodir yn y cynigion. Ni argymhellir unrhyw newid yma. • Bydd ymestyn yr amgylchiadau pryd y gall awdurdodau cyhoeddus dorri hawliau'r Confensiwn yn arwain at symud hawliau'n ôl ac y mae'n andwyol i fuddiannau'r unigolion. Mae profiad ac ymchwil a gynhaliwyd yng nghyd-destun pandemig Covid-19 hefyd wedi dangos y caiff hyn effaith anghymesur ar y sawl sydd mewn mwyaf o risg o gael eu hawliau wedi eu treisio. Gweler, er enghraifft, yr adroddiad Locked Out am brofiadau pobl anabl yn ystod y cyfnodau clo. Yn gyffredinol, bydd y newidiadau hyn yn gwneud hawliau dynol yn fwy anodd eu gorfodi, ac nid ydynt felly yn cael eu hargymhell.
<ul style="list-style-type: none"> • Awdurdodaeth Alldiriogaethol Mae Llywodraeth y DU yn gofyn sut i ymdrin â mater awdurdodaeth alldiriogaethol y CEHD, yn benodol mewn achosion o wrthdaro arfog. 	<ul style="list-style-type: none"> • Edrychodd yr AADHD i mewn i'r cwestiwn hwn fel rhan o'i waith a daeth i'r casgliad fod angen sgwrs genedlaethol a deialog rhwng llywodraethau. Mae hyn oherwydd y byddai risg i unrhyw newidiadau unochrog ar lefel y DU roi'r DU mewn sefyllfa o wrthdaro gyda'r CEHD yn rhyngwladol. O'r herwydd, nid oes achos dros ddiwygio fel rhan o Fesur Iawnderau y DU.²
<p>Mae Llywodraeth y DU yn cynnig newid sut y mae'r prawf cymesuredd yn gweithio wrth bennu a oes modd cyfyngu ar hawliau CEHD</p>	<p>Ni chynigir unrhyw dystiolaeth fod agwedd bresennol y Llysoedd tuag at bennu a ellir cyfyngu ar hawliau nad ydynt yn absoliwt yn broblemus. Mae'r prawf cymesuredd yn sicrhau bod penderfyniadau i gyfyngu ar hawliau dynol pobl wedi eu gwreiddio yn ffeithiau penodol y sefyllfa a bod hyn yn cael ei wneud yn y dull lleiaf caeth</p>

² Gweler adroddiad Adolygiad Annibynnol y Ddeddf Hawliau Dynol, t.337.

<p>amodol (hawliau i breifatrwydd a bywyd teuluol; rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd; rhyddid mynegiant a rhyddid i ymgynnull a chydgyssylltu).</p> <p>Gall hawliau CEHD amodol gael eu cyfyngu pan fynna'r gyfraith hyn a'i fod yn angenrheidiol er mwyn diddordeb cyhoeddus cyfreithlon. Bwriada Llywodraeth y DU roi cyfarwyddyd statudol i'r Llysoedd am sut i gynnal yr ymarferiad cydbwysu hwn trwy roi mwy o bwysau i farn Senedd y DU.</p>	<p>posib. Nid yw'n glir sut y bydd y newidiadau a awgrymir yn effeithio ar y broses hon oherwydd bod y Llysoedd eisoes yn rhoi pwys ar farn Senedd y DU, er bod perygl o bwysiad o blaid barn y Llywodraeth. Mae hyn yn bryder o ran gwahaniad pwerau. Gallai rhoi gor-bwyslais ar un agwedd o brawf cymesuredd hefyd wneud y broses yn llai sensitif i fanylion penodol pob sefyllfa sydd dan ystyriaeth ac arwain at fwy o gyfyngiadau ar hawliau nag a fuasai wedi digwydd fel arall. O gofio'r pryderon hyn, ni argymhellir unrhyw newid i'r ffordd y mae'r Llysoedd yn mantoli hawliau amodol.</p>
<p>Mae Llywodraeth y DU yn gwneud llawer o gynigion yn benodol ar bwnc hawliau mudwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Maent yn ceisio atal hawliadau hawliau dynol rhag 'rhwystro' allgludiadau, er enghraifft trwy sicrhau na all rhai hawliau yn y Mesur lawnderau atal allgludo rhai 'categoriâu' o bobl. • Maent hefyd yn gofyn sut i fynd i'r afael â 'rhwystrau' sy'n deillio o'r CEHD i drin mudo afreolaidd neu anghyfreithlon. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid gwrthod y newidiadau hyn ar seiliau sylweddol a threfniadol. Mae llunio'r cwestiynau hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau a therminoleg gwirioneddol ymrannol sy'n camddeall yn sylfaenol fod hawliau dynol yn gyffredinol ac yn warant hanfodol yn erbyn camau amhriodol gan y Wladwriaeth. O'r herwydd, nid yw hawliadau hawliau dynol yn 'rhwystro' unrhyw gamau gan y wladwriaeth – maent yn amddiffyniad hanfodol. • Ymhellach, nid yn unig fod diffyg tystiolaeth i gefnogi'r newidiadau hyn, o ystyried na wnaeth yr AADHD ystyried y pwnc, ond y mae'r cynigion yn gamarweiniol am eu bod yn dibynnu ar achosion y penderfynwyd arnynt cyn Deddf Mewnfudo 2014. O'r herwydd, maent yn adlewyrchu sefyllfa gyfreithiol fel yr oedd 15 mlynedd yn ôl, pan oedd prawf cymesuredd mwy safonol yn cael ei ddefnyddio gan y Llysoedd. Mae'r trothwy i atal allgludiadau heddiw eisoes yn uchel iawn ac nid oes achos dros wneud hyn yn fwy heriol. • Mae'r ffaith na fu ymwneud â Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r cynigion hyn yn achos pryder yn y maes hwn o gofio fod Cymru yn Genedl Noddfa. Yn ddiweddar hefyd, gwrthododd Senedd Cymru gydsyniad i'r Mesur Cenedligrwydd a Ffiniau, sy'n arwydd pellach o anghytuno tiriogaethol ynghylch y cynigion hyn.
<p>Cyflwyno ffactorau newydd y mae'n rhaid i farnwyr ystyried wrth ddyfarnu iawndal am dorri hawliau dynol.</p> <p>Cynigia Llywodraeth y DU fynnu bod y llysoedd yn edrych ar effaith dyfarnu iawndal mewn achosion lle mae awdurdodau cyhoeddus wedi torri hawliau dynol ar yr awdurdodau hynny</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid rhagdybio y byddai torri hawliau dynol yn cael effaith negyddol ddwfn ar yr unigolyn y torrwyd ei hawliau. Bydd unrhyw ymgais i osod terfynau ar yr iawndal ariannol posib a ddyfarnir yn yr achosion hyn yn cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder trwy gyflwyno anghymhellion newydd rhag dwyn achosion ac yn cynyddu gallu awdurdodau cyhoeddus i dorri hawliau dynol. Caiff y newidiadau hyn effaith anghymesur ar unigolion sydd eisoes yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i orfodi eu hawliau ac sydd fwyaf tebygol o fod wedi dioddef treisio eu hawliau. Dylid felly gwrthod y cynigion hyn.

trwy restru ffactorau newydd y dylid eu hystyried.

Thema IV – Pwysleisio rôl cyfrifoldebau yn y fframwaith hawliau dynol (cwestiwn 27)

Cyflwyno syniadau o ‘gyfrifoldebau’ ac ‘ymddygiad hawlwyr’ i asesiadau rhwymedïau pan fydd hawliau dynol yn cael eu torri.

Mae Llywodraeth y DU yn gwneud dau gynnig hynod iawn.

- Pan fo llys yn ystyried a ddylid cyfyngu ar hawliau dynol amodol unigolyn, y dylid ystyried ymddygiad yr unigolyn. Mae’r rhoi’r enghraifft o wadu i bobl a gyflawnodd drosedd yr hawl i fywyd preifat.
- Yn ail, awgryma Llywodraeth y DU, pan fo llys yn pennu iawndal am dorri hawliau dynol, y dylent ystyried ‘ymddygiad yr hawliwr’ wrth benderfynu a ddylid dyfarnu rhwymedi neu beidio.

- Os cyflwynir y cynigion hyn, buasent yn gosod y DU allan o step â’r egwyddor sylfaenol a dderbynnir yn rhyngwladol fod hawliau dynol yn gyffredinol ac nad ydynt yn amodol ar ymddygiad yr unigolyn. Mae’r gwahaniaeth a awgrymir gan Lywodraeth y DU rhwng pobl sy’n ‘haeddiannol’ ac yn ‘anhaeddiannol’ o hawliau dynol yn ymrannol ac unochrog iawn. Mae’r cynigion yn canolbwyntio ar droseddolrwydd sydd ynddo’i hun yn amhriodol, ond y maent hefyd yn gamarweiniol yn eu methiant i ystyried yr oblygiadau ehangach i hawliau pawb. Mewn rhai ffyrdd, gallai’r broses fod yn gyfystyr â beio’r dioddefwr a dal pobl yn atebol am y camwahaniaethu yn eu herbyn. Pa na bai hyn yn ddigon problemus, awgryma’r cynigion y gellid cael ychydig iawn o gyfyngiadau ar sut i ddefnyddio ymddygiad unigolion yn erbyn hawlwyr. Er enghraifft, mae dewis 2 yn holi a ddylid gosod unrhyw derfynau amser ar yr ymddygiad i’w ystyried. Mae hyn yn awgrymu y gallai gweithredoedd ymhell yn ôl yn y gorffennol atal hawlwyr rhag cael iawn am dreisio eu hawliau. Bydd hyn yn lleihau atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus ac yn creu rhwystrau i gyrchu cyfiawnder.
- Ymhellach, mae risg y byddai’r newidiadau hyn yn cyflwyno ansicrwydd cyfreithiol sylweddol. Nid yn unig y mae asesu ymddygiad unigolyn yn debyg o fod yn oddrychol iawn, ond gallai’r cwmpas eang posib o gamau a allai bwysu yn erbyn hawliwr, ar y cyd â chynigion deddfwriaethol eraill megis Mesur yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a’r Llysoedd, arwain at anghyfiawnder sylweddol.
- Mae risg y gallai’r newidiadau hyn hefyd waethygu anghydraddoldeb daearyddol o ran cyrchu cyfiawnder – er enghraifft, mae’r graddau y mae pobl yn gwneud defnydd o hawliau yng Nghymru yn is o lawer nag mewn rhai rhannau eraill o’r DU.

Thema V – Hwyluso ystyried deialog gyda Strasbourg, a gwarantu rôl gywir Senedd Prydain ar yr un pryd (cwestiwn 28)

<p>Newid y modd mae'r DU yn ymateb i ddyfarniadau o'r LIIDE Aiff y cwestiwn hwn yn ôl at awydd Llywodraeth y DU i bwysleisio na all LIIDE gyfyngu ar sofraniaeth Seneddol er bod y DU wedi eu rhwymo yn rhyngwladol i weithredu dyfarniadau pan fernir eu bod wedi torri'r CEHD.</p> <ul style="list-style-type: none">• Maent yn cynnig, pan fydd LIIDE yn dyfarnu yn erbyn y DU y dylai'r gweinidog perthnasol osod hysbysiad am y dyfarniad gerbron y Senedd i'w ystyried.• Maent hefyd yn cynnig cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n cadarnhau Sofraniaeth Seneddol.	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r cynigion hyn yn ddiangen, gan y gall Senedd y DU eisoes ymateb i ddyfarniadau a roddir gan LIIDE. Ymhellach, mae'r cwestiwn wedi ei unio yn amhriodol gan nad yw dyfarniadau LIIDE yn 'andwyol' am eu bod yn gorfodi hawliau dynol unigolion dan normau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol.• Er y bydd eu heffaith yn ymarferol yn debyg o fod yn gyfyngedig, ar lefel egwyddorol, mae'r cynigion yn ceisio bychanu effeithiau dyfarniadau LIIDE yn y DU ac yn rhoi cefnogaeth i'r posibilrwydd y byddai'r Llywodraeth yn torri hawliau dynol. Gall hyn gael effaith negyddol yn rhyngwladol gan y gall sbarduno symudiadau tebyg mewn gwledydd lle mae llai o barch i hawliau dynol i gychwyn.
---	--

Casgliad / Cwestiwn olaf – Effaith

<p>Mae'r cwestiwn olaf yn yr ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid amlygu effeithiau ehangach neu benodol Mesur arfaethedig lawnderau y DU. Mae canolbwynt penodol ar oblygiadau cydraddoldeb a'r effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig.</p>	<p>Effaith ar bobl</p> <p>Caiff y cynigion effaith negyddol ar atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus ac ar fynediad at gyfiawnder. Bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig sydd mewn mwyaf o berygl o ddiodef ymyrryd â'u hawliau ac sydd eisoes yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i orfodi eu hawliau.</p> <p>Bydd cyflwyno'r cyfnod caniatâd (thema II - cwestiynau 8-9) yn dod â rhwystrau trefniadol ac ariannol newydd yn eu sgil. Bydd y rhain yn cyfyngu mynediad at gyfiawnder i grwpiau lleiafrifol sydd eisoes yn wynebu cryn rwystrau, gan gynnwys pobl anabl, dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, pobl sy'n byw mewn tlodi a phobl gafodd brofiad o</p>
--	--

fod mewn gofal, ond nid y rhain yn unig. Nid yn unig y bydd y grwpiau hyn dan fwy fyth o anfantais, ond gallai cyfyngu mwy ar fynediad at gyfiawnder arwain at fynnu bod LIIDE yn gweld mwy o achosion.

Mae'n debygol y bydd y cynigion i leihau rhwymedigaethau cadarnhaol ar awdurdodau cyhoeddus (thema II - cwestiwn 11) ac i gynyddu'r amgylchiadau lle gallant dorri hawliau dynol (thema III - cwestiynau 20 a 21) yn arwain at symud tuag yn ôl. Caiff hyn effaith negyddol fwy hefyd ar y sawl sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus. Dangosodd profiad ac ymchwil a gynhaliwyd yng nghyd-destun pandemig Covid-19, ar adegau o argyfwng, fod risg arbennig i hawliau a lles grwpiau lleiafrifol – mae hyn yn gyfiawnhad dros gynyddu yn hytrach na chyfyngu ar y dyletswyddau hawliau dynol a osodir ar awdurdodau cyhoeddus. Gweler yr adroddiad **Locked Out** am brofiadau pobl anabl yn ystod y cyfnodau clo, er enghraifft.³ Byddai hyn yn cael ei waethygu gan y cynnig i gyfyngu ar iawn am dorri hawliau dynol trwy ystyried yr effaith ariannol a gâi hyn ar yr awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am y torri gan y bydd yn cyfyngu ymhellach ar fynediad at gyfiawnder trwy gyflwyno anghymhellion pellach rhag dwyn hawliadau gerbron (thema III – cwestiwn 26).

Effaith ar Ddatganoli

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud cydymffurfio â'r CEHD yn agwedd sylfaenol o ddatganoli Cymreig (adran 81(1)) ac yn gwneud cadw at a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol gan gynnwys y CEHD yn fater datganoledig (atodlen 7A). O'r herwydd rhaid rhagdybio y byddai pasio'r Mesur hwn yn golygu cael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

Er hyn, ni fu unrhyw ymwneud â Llywodraeth Cymru; nid oes unrhyw fanylion sylweddol yn y cynigion am sut y bydd Mesur lawnderau arfaethedig y DU yn ymwneud a'r gyfraith a gweithdrefnau ar y lefel ddatganoledig, ac y mae perygl y cyflwynir cyn ansicrwydd cyfreithiol. Rhoddir llai fyth o sylw i'r oblygiadau posib i Gymru nag i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ar waethaf yr anghyseindedd clir rhwng bwriad Mesur lawnderau y DU i gyfyngu ar 'ehangu hawliau' a'r bwriad clir a'r awydd cyffredin yng Nghymru i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r cynigion yn sylfaenol anghydweiddol a'r farn o hawliau dynol a'r uchelgeisiau polisi yng Nghymru. Mae un darn o ddeddfwriaeth Gymreig ar ôl y llall wedi ceisio cryfhau arferion awdurdodau cyhoeddus o ran hawliau dynol. Yn y cyfamser, mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn ceisio dilyn tueddiadau blaengar megis pwysigrwydd cynyddol hawliau cymdeithasol-economaidd a chynyddu cysylltiadau rhwng cyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol a domestig.

³ [Locked Out: Liberating Disabled People's Lives and Rights in Wales Beyond Covid-19](#), 2 Gorffennaf 2021.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd pa heriau a all godi o'r rhaniad rhwng agweddau Cymru a'r DU at hawliau dynol yng nghyd-destun un awdurdodaeth fyddai'n cael ei greu gan y cynigion hyn. Yn y tymor hir, mae'n debyg y byddant yn arwain at gymhlethdod, ansicrwydd a chanlyniadau nas rhagwelwyd i farnwyr ac awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, o gadw mewn cof y croestoriadau clir gyda chymwyseddau datganoledig a graddfa'r newidiadau, dylai Llywodraeth Cymru ymwneud yn llawn â'u ffurfio. Fel y saif pethau ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut y gallai'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol.

Yn olaf, byddai'r cynigion i atal y llysoedd rhag diddymu deddfwriaeth eilaidd lle mae'n anghydnaws â'r CEHD yn arwain at sefyllfa baradocsaid lle byddai modd diddymu prif ddeddfwriaeth Gymreig oherwydd ei fod yn anghydnaws â'r CEHD ond na ellid diddymu deddfwriaeth eilaidd y DU.